

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Hysbysiad Preifatrwydd

FFURFLENNI CAIS DIGARTREFEDD A THAI

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau Diogelu GDPR a deddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Diogelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk

01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Crëwyd: 25 Mai 2018

Adran â Chyfrifoldeb: Adran Tai

Rheolwr â Chyfrifoldeb: Steve Peters

Cyfeiriad: CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth tai a ddarparwyd gan y Cyngor, yn fwyaf cyffredin, preswylwyr y fwrdeistref sirol sydd am gofrestru am dai cymdeithasol i'w galluogi nhw i wneud cais am gartref oddi wrth Landlord Cymdeithasol Rhestredig (Cymdeithas Tai) a hefyd preswylwyr sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarar yr hysbysiad hwn ar unrhyw adeg a byddwn yn sicrhau ei fod ar gael i chi cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Y mae'n bwysig eich bod yn darllen a chadw'r hysbysiad hwn, ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd y gallem ei ddarparu ar achlysuron penodol pan fyddwn yn casglu neu brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio gwybodaeth o'r fath a beth yw eich hawliau o dan y deddfwriaeth diogelu data.

MANYLION ADNABOD A CHYSWLLT Y RHEOLWR DATA

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r Rheolwr Data ac mae'n ymroddedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data gan gynnwys y GDPR.

Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r swyddog gyda'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Canolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Ffôn: 01685 725000

Ffacs: 01685 725060

Y WYBODAETH YR YDYM YN EI CHADW AMDANOCH CHI

Byddwn yn casglu, cadw a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch chi:

- Dangosyddion Personol gan gynnwys:
 - Manylion cyswllt personol fel enw, teitl, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost personol.
 - Dyddiad geni.
 - Rhyw y person.
 - Statws priodasol a dibynyddion.
 - Perthynas agosaf a gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng.
- Cofnodion Credyd fel manylion benthg arian, pwrcasau, arferion gwario.
- Manylion Ariannol:
 - Manylion cyfrif banc, cofnodion incwm yn cynnwys a ydych yn derbyn budd-daliadau.
 - Manylion gwario, yn cynnwys arian sy'n mynd allan o'ch cyfrif fel taliadau a biliau am wasanaethau.
- Cofnodion Cyflogaeth:
 - Cyflog, pensiwn a gwybodaeth am fudd-daliadau.
 - Dyddiad dechrau neu ddyddiad cyflogaeth barhaol.
 - Lleoliad cyflogaeth neu weithle.
 - Teitlau swyddi, hanes gwaith ac oriau gwaith.

Gallwn hefyd gasglu, cadw a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol:

- Gwybodaeth am eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol, tueddfryd rhywiol a barn wleidyddol.
- Hanes iechyd teulu neu unigol, cofnodion iechyd, teip gwaed, meddyginiaethau cyfredol ac o'r gorffennol a rhagnodiadau.
- Gwybodaeth am eich iechyd yn cynnwys unrhyw gyflwr meddygol, cofnodion iechyd yn cynnwys pan fyddwch yn gadael cyflogaeth a phan fo'r rheswm dros adael yn cael ei bennu gan salwch, anaf neu anabled, y cofnodion sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwnnw;
- Gwybodaeth am euogfarn droseddol a throseddau.

SUT GAIFF EICH GWYBODAETH BERSONOL EI CHASGLU

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr tai drwy ein ffurflenni cais cofrestru am dai neu ddigartrefedd, un ai'n uniongyrchol oddi wrthyh chi, neu os ydych wedi derbyn cefnogaeth wrth gwblhau'r ffurflen gallem eu derbyn oddi wrth yr unigolyn/ asiantaeth sy'n eich cefnogi chi.

Weithiau, gallem gasglu gwybodaeth ychwanegol oddi wrth drydydd parti yn cynnwys landlord cymdeithasol, elusennau ac awdurdodau lleol eraill y mae gennych gyswllt â hwy, a hefyd y GIG, meddygfa meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall. Gall achlysuron godi ble y byddwn yn derbyn gwybodaeth wrth i ni weithredu gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adfer Cymunedol, gwasanaethau'r heddlu, cyn landlordiaid ac unigolion eraill y gwyddoch amdanynt.

Gall achlysuron godi hefyd ble y byddem yn derbyn gwybodaeth oddi wrth adrannau mewnol fel Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Adran Addysg a'r Adran Refeniw a Budd-daliadau. Ar ôl casglu eich gwybodaeth, caiff ei gadw ar ein system Civica sy'n gronfa ddata a leolir yn

allanol. Bydd ffeil achos unigol yn cael ei ddyrannu i chi oddi fewn i'r system hwn; caiff yr holl wybodaeth berthnasol i chi ei storio yn eich ffeil achos unigol.

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol unigol wrth i ni weithredu busnes y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarparwn i chi wrth i chi gysylltu â ni. Caiff hyn ei esbonio'n fanylach drwy gydol yr hysbysiad hwn.

SUT Y BYDDWN YN DEFNYDDIO GWYBODAETH AMDANOCH CHI

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fyddwn wedi derbyn eich caniatâd i ddarparu gwasanaeth ar eich cyfer.
2. Pan fydd angen i ni gydymffurfio â goblygiad cyfreithiol.
3. Pan fydd angen i ni ddiogelu eich buddion (neu fuddion rhywun arall).
4. Pan fo'n angenrheidiol er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol.
5. Pan fo'n angenrheidiol er ein buddion cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ac nad yw eich buddion na'ch hawliau sylfaenol chi yn gwrthwneud y buddion hynny.

Sefyllfaoedd pan fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae angen yr holl gategorïau o wybodaeth yn y rhestr uchod arnom yn bennaf i'n galluogi ni i gyflawni ein gwasanaethau fel darparwr tai a fydd yn ein galluogi ni i gydymffurfio â'n goblygiadau cyfreithiol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i ymlid diddordebau cyfreithiol ein hunain neu rai trydydd partiön, ar yr amod nad yw eich diddordebau a'ch hawliau sylfaenol yn gwrthwneud y diddordebau hynny. Isod, rhestrir y sefyllfaoedd pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol.

- Caniatâd:
 - Ymateb i ac ystyried unrhyw gwynion a wnaed gennych chi neu eich cynrychiolydd o ran y gwasanaeth a dderbynioch.
 - Eich galluogi chi i ymgysylltu â a chyfranogi mewn unrhyw weithgareddau sy'n digwydd o ran atal digartrefedd.
 - Cael mynediad at gronfeydd data adrannau mewnol, fel Refeniw Nothgate a System Fudd-daliadau er mwyn eich darparu â gwasanaeth effeithiol ac ymateb i'ch ceisiadau mewn modd amserol ac effeithiol.
- Goblygiad cyfreithiol:
 - Eich darparu â'r ddarpariaeth o lesiant, yn cynnwys diogelu, ymgysylltiad gwasanaethau cymdeithasol a chael mynediad at wasanaethau iechyd
 - Annog datblygu'r Gymraeg
- Diogelu eich Buddion:
 - Cadw eich plant yn ddiogel
 - Eich diogelu chi rhag bod mewn risg o niwed neu eich helpu i ddianc rhag cam-drin domestig neu sefyllfaoedd peryglus eraill
- Dibenion Swyddogol (Tasg Gyhoeddus):
 - Asesu ansawdd ein gwasanaethau

- Bodloni dyletswyddau statudol a osodwyd arnom gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
 - Cyflawni adolygiadau o ddigartrefedd ym Merthyr Tudful a datblygu strategaeth i atal a darparu help i bobl sy'n ddigartref neu'n cael eu bygwth â digartrefedd
 - Asesu eich angen am gefnogaeth sy'n berthnasol i dai, cynllunio strategaeth a gwasanaethau comisiynu.
- Buddion Cyfreithlon:
 - Hyrwyddo ffordd o fyw iach ac arferion gwario iach
 - Cynnig cefnogaeth ac arweiniad i chi ynghylch cael mynediad at wasanaethau perthnasol i'ch sefyllfa

Os fyddwch yn methu â darparu gwybodaeth bersonol

Os fyddwch yn methu â darparu gwybodaeth benodol ar ofyn, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu perfformio'r contract yr ydym wedi ei ddechrau gyda chi, neu mae'n bosibl y byddwn yn cael ein hatal rhag cydymffurfio â'n hobjlygiadau cyfreithiol.

Newid diben

Dim ond i'r dibenion y gwnaethom ei chasglu y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, oni bai ein bod yn rhesymol ystyried fod angen i ni ei defnyddio ar gyfer rheswm arall sy'n cydweddu â'r diben gwreiddiol. Os oes angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol am ddiben nad yw'n berthnasol, byddwn yn eich hysbysu o hyn gan esbonio'r sail gyfreithiol sy'n ein caniatáu ni i wneud hynny.

Noder y gall fod yn bosibl i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol heb eich bod yn gwybod hynny neu heb eich caniatâd, mewn cydymffurfiad â'r rheolau uchod, ble y bo hynny'n ofynnol neu wedi ei ganiatáu gan y gyfraith.

SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO GWYBODAETH BERSONOL ARBENNIG O SENSITIF

Mae'n ofynnol i gategoriâu arbennig o wybodaeth bersonol sy'n neilltuol o sensitif gael lefelau uwch o ddiogelwch. Mae angen i ni gael cyfiawnhad pellach ar gyfer casglu, cadw a defnyddio'r math hwn o wybodaeth bersonol. Mae dogfen bolisi priodol a dulliau diogelu gennym mewn lle, y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni eu cynnal wrth brosesu'r fath ddata. Gallwn brosesu categorïau arbennig o wybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol chi, megis ymateb i'ch ymholiadau, a bod angen i ni edrych ar eich cofnodion er mwyn rhoi ymateb i chi, mae hyn hefyd yn sicrhau eich bod chi'n derbyn y gwasanaeth gorau oddi wrthym ni.
2. Cydymffurfio â'n hobjlygiadau cyfreithiol neu weithredu hawliau mewn perthynas â'n gorchwyl cyhoeddus mewn perthynas â:
 - Darparu cefnogaeth sy'n berthnasol i dai i chi o ran:
 - Cyngor ar Ddigartrefedd a Thai
 - Rheoli Gwasanaethau Cefnogi Pobl
 - Swyddogaeth Tai Strategol
 - Mynediad at y Sector Rhentu Preifat
 - Byddwn yn darparu'r gwasanaethau hyn yn unol â Chod Canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i Ddyraniad Llety a Digartrefedd.
 - I gydymffurfio â'n hobjlygiadau cyfreithiol swyddogol fel corff cyhoeddus sy'n cael eu

gosod o dan y cyfreithiau canlynol:

Deddf Tai 1996

Deddf Tai (Cymru) 2014

Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

<<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/notes>> yn cynnwys Strategaeth

Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

<<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/contents/enacted>>

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015

3. Ble y bo'i angen er budd y cyhoedd, i gynorthwyo gydag atal digartrefedd a phroblemau cefnogi tai a monitro cyfleoedd cyfartal.

Yn llai cyffredin, gallwn brosesu'r math hwn o wybodaeth ble y bo'i angen mewn perthynas â hawliadau cyfreithlon neu ble y bo'i angen i ddiogelu eich buddion (neu fuddion rhywun arall) ac nad ydych â'r gallu i roi eich caniatâd, neu pan fyddwch eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Dai, ewch i wefan Merthyr Tudful fyw: www.livingmerthyrTudful.org.uk

RHANNU DATA

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni rannu eich data â thrydydd partiön, yn cynnwys darparwyr gwasanaeth trydydd parti er mwyn parchu diogelwch eich data i'w drin yn unol â'r gyfraith.

Pam y gallech chi rannu fy ngwybodaeth bersonol â thrydydd parti?

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partiön ble y bo'n ofynnol yn ôl y gyfraith, pan fo'n angenrheidiol i weinyddu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i chi neu ble mae gennym fudd cyfreithlon arall wrth wneud hynny.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data personol dienw yn flynyddol o ran eich cyfranogiad yn y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Cyngor gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn gwella'r gofal a chymorth a ddarparwyd i bobl yng Nghymru.

Os ydym yn ystyried bod eich amgylchiadau arbennig chi yn fater o bryder, mae'n bosibl y byddwn yn eich cyfeirio at asiantaeth fel elusen neu sefydliad i ddarparu'r help sydd ei angen arnoch. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn eich cyfeirio at adran arall yn y Cyngor os yw'n gallu eich darparu chi gyda help.

Mae'n bosibl y bydd yna achlysuron pan fyddwn ni'n gorfod gweithio ochr yn ochr ag awdurdod lleol arall i'ch darparu chi â'r gwasanaethau sy'n ofynnol gennych. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os fydd hyn yn digwydd.

Pa mor ddiogel yw fy ngwybodaeth gyda darparwyr gwasanaethau trydydd parti a rheolwyr data eraill?

Mae'n ofynnol i'n holl ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti a rheolwyr data eraill gymryd camau diogelwch priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data. Bydd ein darparwyr trydydd parti a rheolwyr data yn darparu gwybodaeth i chi ynghylch sut maen nhw'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Pryd allech chi rannu fy ngwybodaeth bersonol gyda rheolwyr data eraill?

Byddwn yn rhannu eich data personol mewn perthynas â'ch cais am dai neu gyfeirio digartrefedd gyda'r landlord cymdeithasol cofrestredig oddi fewn i ardal Merthyr Tudful. Nid yw'r Cyngor yn berchen ar unrhyw dai cymdeithasol mwyach, ac yn hynny o beth rhaid i ni wneud ymholiadau gyda darparwyr allanol, a allai hyd yn oed gynnwys landlordiaid preifat, er mwyn diogelu llety. Gellir dod o hyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y fwrdeistref ar wefan Dewis Tai Merthyr www.merthyrhousingchoice.org.uk/partners
<<http://www.merthyrhousingchoice.org.uk/partners>>.

Beth am drydydd partïon eraill?

Mae'n bosibl y bydd angen i ni hefyd rannu eich gwybodaeth bersonol â rheoleiddiwr neu awdurdod goruchwyllo i gydymffurfio â'r gyfraith. Gallai hyn gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yr Ombwdsmon, Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth neu Adran Lywodraethol arall a Chomisiynwyr Rheoleiddio apwyntedig.

Gallwn hefyd rannu eich data gyda'r GIG neu gyfeirio at weithiwr iechyd proffesiynol arall ar eich rhan pe byddai cymorth o'r fath yn ofynnol gennych.

Trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r UE]

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wlad y tu allan i'r UE. Os byddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu o hynny cyn gynted â phosibl. Os byddwn yn gwneud hynny, gallwch ddisgwyl graddfa debyg o ddiogelu o ran eich gwybodaeth bersonol.

CADW DATA

Am ba mor hir fyddwch chi'n defnyddio fy ngwybodaeth?

Byddwn ddim ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol am mor hir ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, yn cynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifeg neu adrodd yn ôl. At ddibenion ceisiadau tai a digartrefedd byddwn yn cadw'r wybodaeth hon am 6 blynedd ar ôl cau'r ffeil.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk) neu oddi wrth y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth Cyngorau a gellir cysylltu â hwy gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd ar frig yr hysbysiad hwn. Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried y swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posibl o niwed o ddefnyddio eich data personol heb awdurdod neu o'i ddatgelu, at y dibenion hynny rydym yn prosesu eich data personol ac a ydym yn gallu cyflawni'r dibenion hynny drwy foddau eraill, a'r gofynion cyfreithiol cymwys.

O dan rai amgylchiadau mae'n bosibl y byddwn yn gwneud eich gwybodaeth bersonol i fod yn ddiennw fel na ellir ei chysylltu â chi mwyach. Mewn achos o'r fath, gallwn ddefnyddio'r fath wybodaeth heb hysbysiad pellach oddi wrthy ch. Pan na fyddwch yn derbyn gwybodaeth oddi wrth y Cyngor mwyach, byddwn yn cadw a dinistrio eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'n Polisi Rheoli Cofnodion yn cynnwys unrhyw gyfreithiau a rheoliadau cymwys.

HAWLIADAU MYNEDIAD, CYWIRO, DILEU A CHYFYNGIAD

Y ddyletswydd sydd arnoch i'n hysbysu am newidiadau

Y mae'n bwysig fod y wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch yn gywir a chyfredol. Rhowch wybod i ni am newidiadau i'ch gwybodaeth bersonol yn ystod eich perthynas waith gyda ni.

Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol

O dan amgylchiadau penodol, yn ôl y gyfraith mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- **Gwneud cais am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (fel arfer gelwir hyn yn "cais am fynediad at ddata pwnc"). Mae hyn yn eich galluogi chi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch chi a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithiol.
- **Gwneud cais i gywiro** rwybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi chi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi.
- **Cais am ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni gael gwared ar wybodaeth bersonol pan nad oes yna reswm da i ni barhau i'w phrosesu. Mae hawl gennych hefyd i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi ymarfer eich hawl i wrthwynebu ei phrosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn yn dibynnu ar ddi-ddordeb cyfreithiol (neu rai trydydd parti) a bod yna rywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n golygu eich bod am wrthwynebu'r prosesu ar y sail hon. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Cais am gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni ohirio prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Gwneud cais i drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych am adolygu, dilysu, cywiro neu ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu i brosesu eich data personol, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r rheolwr cyfrifol â'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn a hynny yn ysgrifenedig.

Dim ffi yn ofynnol fel arfer

Ni fydd raid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol (nac i ymarfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi resymol os yw eich cais am fynediad heb sail glir neu'n eithafol. Neu, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Yr hyn y gallai fod ei angen arnom oddi wrthy ch

Mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol oddi wrthy ch i'n helpu ni i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad at y wybodaeth (neu i ymarfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw

gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw berson sydd heb yr hawl i'w derbyn.

YR HAWL I DYNNU CANIATÂD YN ÔL

O dan yr amgylchiadau cyfyngedig ble y gallech fod wedi darparu eich caniatâd i gasglu, prosesu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol at ddiben penodol, mae hawl gennych i dynnu eich caniatâd yn ôl ar gyfer y prosesu penodol hwnnw ar unrhyw adeg. Er mwyn tynnu eich caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r rheolwr cyfrifol y mae ei fanylion ar frig yr hysbysiad hwn. Ar ôl i ni dderbyn hysbysiad eich bod wedi tynnu eich caniatâd yn ôl, ni fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth mwyach at ddiben neu ddibenion yr oeddech wedi cytuno arnynt yn wreiddiol, oni bai bod gennym sail gyfreithlon i wneud hynny yn ôl y gyfraith.

DIOGELU DATA

Rydym wedi gosod mesurau diogelwch priodol mewn lle, er mwyn atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, neu ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd heb ei awdurdodi. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogwyr, asiantaethau, contractwyr a'r trydydd partion eraill hynny sydd ag angen gwybod yn sgil busnes. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn dilyn ein cyfarwyddiadau ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o amheuaeth o dorcyfraith ble y bo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

CYFLWYNO CWYN

Rydym wedi penodi swyddog diogelu data i oruchwylio cydymffurfiaid â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes unrhyw gwestiynau gennych am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu am sut yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Mae gennych hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r DU am unrhyw faterion diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)
2^{il} Lawr
Tŷ Churchill
Churchill Way
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421
E-bost: casework@ico.org.uk

NEWIDIADAU I'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN

Rydym yn dal ar yr hawl i ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg, byddwn yn sicrhau y bydd yr hysbysiad preifatrwydd newydd ar gael i chi pan fyddwn ein diweddarau'n sylweddol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn eich hysbysu mewn ffyrdd eraill o bryd i'w gilydd ynghylch prosesu eich gwybodaeth bersonol.